# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PANEL LLOFNODWYR CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG

## A GYNHALIWYD YN CHAMBER MEETING ROOM, CIVIC CENTRE, SWANSEA DYDD LLUN, 4 GORFFENNAF 2016 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd June E Burtonshaw (Cadeirydd) yn llywyddu

**Yn Cynrychioli Sefydliadau**:
Y Capt Chris Evans – y Fyddin
Is-gomander Ruth Fleming – y Llynges
Arweinydd Sgwadron Phil Flower – y Lleng Brydeinig Frenhinol
Alyx Baharie – CGGA
Sue Richards-Hoskin – Cruse
Andrew Grove – Brigâd Dân Canolbarth a Gorllewin Cymru
Alison Fisher – Heddlu De Cymru
**Swyddog(ion)**
Spencer Martin Cydlynydd Perthnasoedd y Sector Gwirfoddol
Gareth Borsden – Gwasanaethau Democrataidd

26 **DERBYN YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Derbyniwd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Byron Lewis, Peter Neville, Victoria Williams, Sophie O'Kelly a Tony Colburn.

27 **DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Dim.

28 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y panel a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2016 yn gofnod cywir.

29 **CAIS AM GYLLID: CORFFLU CADETIAID MÔR, T.S.AJAX, ABERTAWE.**

Amlinellwyd y broses ddiwygiedig ar gyfer ceisiadau ariannu gan Spencer Martin, Cydlynydd Perthnasoedd y Sector Gwirfoddol.

Derbyniwyd cais gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn gofyn am farn y panel ar gais ariannu gan Gorfflu Cadetiaid Môr, T.S.Ajax, Abertawe.

Trafodwyd gan aelodau'r panel enw arbennig y Corfflu a'r cais ariannu ar gyfer gwaith gwella i'w adeilad ger afon Tawe.

Amlinellodd Sue Richards-Hoskin fod Cruse Bereavement hefyd wedi cyflwyno cais am arian at ddiben cynnal cyfres o sesiynau hyfforddi hanner ddiwrnod ledled Abertawe, Castell-Nedd a Phen-y-bont ar Ogwr.

Manylodd Spencer Martin hefyd gefndir cais am arian Cymru Gyfan gan FAON a byddai'n cael ei drafod ymhellach mewn cyfarfod ym mis Gorffennaf. Manylion y cais i'w e-bostio i holl aelodau'r Panel.

**PENDERFYNWYD** cytuno i gymeradwyo a chefnogi ceisiadau am arian gan y Corfflu Cadetiaid Môr, T.S Ajax a Cruse.

30 **<u>Y DIWEDDARAF GAN AELODAU'R PANEL.</u>**

Rhoddwyd diweddariadau ar lafar gan Swyddogion ac Aelodau'r Panel ynglŷn â'r gweithgareddau presennol ac arfaethedig, digwyddiadau a llwythi gwaith eu grwpiau/sefydliadau priodol, yn cynnwys y meysydd canlynol.

<u>Diwrnod y Lluoedd Arfog – 25 Mehefin</u>
Nododd bawb llwyddiant y diwrnod a diolchwyd i'r holl sefydliadau a gymerodd ran am eu help a'u cymorth.

Nodwyd llwyddiant y casgliadau ariannol a gafwyd ar draws y ddinas.

Codwyd y mater ynghylch y Polyn Baner sengl unwaith eto. Bu hyn yn anffodus gan fod yr un mater wedi'i drafod yn flaenorol a chafwyd trafodaeth hir er mwyn datrys y broblem.

Trafodwyd unwaith eto y posibilrwydd o brynu dau bolyn baner dros dro. Awgrymodd Phil Flower y gallai'r Lleng Brydeinig Frenhinol gynorthwyo gyda'r pryniad, pe bai nawdd yn broblem.

Dywedodd Spencer Martin y byddai'n gwirio gyda'i gyd-weithwyr yn yr Adran Digwyddiadau Arbennig i ganfod pam oedd y mater wedi codi eto, ac i drafod ffordd ymlaen a datrysiad.

<u>Sioe Awyr – 2/3 Gorffennaf</u>
Croesawyd unwaith eto lwyddiant a chyhoeddusrwydd da yn deillio o'r sioe gan bawb. Bu'r arddangosfeydd awyr a thir yn boblogaidd iawn unwaith eto, er bu yna ymholiad ynglŷn â diffyg gallu Aelodau'r Panel Cyfamod i gael stondinau arddangos yn ystod y digwyddiad.

Dywedodd Spencer Martin y byddai'n holi ei gyd-weithwyr yn yr Adran Digwyddiadau Arbennig i gadarnhau'r rhesymau am y cyfyngiad.

<u>Digwyddiadau ar y Gweill</u>
Adroddodd Chris Evans ar y ddau ddigwyddiad dilynol
- Diwrnod Trosglwyddo gyda'r AGPh – 14 Medi
- Diwrnod Ymwybyddiaeth o'r Hen Filwyr yn y Grange – Hydref (Dyddiad i'w gadarnhau)

Amlinellodd a dosbarthodd Phil Flower gopïau o'r niferus digwyddiadau a gynhelir dros Ŵyl y Cofio 2016.

Mynegodd y byddai Personél y Lluoedd Arfog yn mynychu, yn amodol ar gadarnhad, a chasgliad ariannol yn y gêm rhwng Dinas Abertawe a Man Utd yn ystod penwythnos 5/6 Tachwedd.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n siarad â'i chydweithwyr yn  y Cyngor i geisio trefnu digwyddiad i hen filwyr yn ystod y gêm, yn debyg i ddigwyddiad llwyddiannus y llynedd.

CGGA
Dywedodd Alyx Baharie am wefan newydd InfoEngine a oedd bellach ar waith a mynegodd y byddai'n trafod gyda Spencer Martin y ffordd orau i gael gafael ar ddolen o dudalen y cyfamod ar wefan y Cyngor.

Heddlu De Cymru
Cyfeiriodd Alison Fisher at y prif gynlluniau sydd ar waith i ymdrin â hen bersonél y Lluoedd Arfog sy'n dod i gysylltiad â'r heddlu, sef y R IT (Rheoli Integredig Troseddwyr) a STOMP (Supporting Transition of Military Personnel).

Nododd y berthynas gydweithio arbennig rhwng yr Heddlu a Change Step, yn enwedig wrth ddelio â materion yn y ddalfa.

Manylodd hefyd ar y polisi "dargyfeiriol" a defnyddir gan yr Heddlu wrth ymdrin â man-droseddau.

Adroddiad y Cadeirydd
Diolchodd June Burtonshaw i'r holl asiantaethau am eu cefnogaeth ar Ddiwrnod y Lluoedd Arfog a'r Sioe Awyr.

Amlinellodd y mesurau a roddwyd ar waith gan yr Awdurdod i roi cymorth i hen bersonél y Lluoedd Arfog wrth ymgeisio am dai cyngor yn Abertawe.

Mynegodd y byddai nifer o hen filwyr yn derbyn gwahoddiad i gala nesaf yr Arglwydd Faer.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.33 pm

**CADEIRYDD**